# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 (Senedd)**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2023

Amser: 11:30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod (11:30-12:00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(12:00)

## 2 Ymchwiliad i weithrediad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog

(12:00-13:00) (Tudalennau 1 - 35)

Jane Hutt, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Amelia John, Llywodraeth Cymru: Cyfarwyddwr Dros Dro Cymunedau a Threchu Tlodi

Riaz Hassan, Llywodraeth Cymru: Pennaeth Tîm Cyflawni y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Rajvi Glasbrook Griffiths, Llywodraeth Cymru: Uwch Rheolwr Prosiect y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

## 3 Papurau i'w nodi

(13:00)

### 3.1 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a Phlismona yng Nghymru ynghylch rhaglenni cyflawnwyr

(Tudalennau 36 - 46)

3.2 Gohebiaeth at Gadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch ei adroddiad, Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru'n Decach?

(Tudalennau 47 - 53)

3.3 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch deugeinfed Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

(Tudalen 54)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw

(13:00)

## 5 Ymchwiliad i weithrediad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: trafod y dystiolaeth

(13:00-13:15)

## Egwyl (13:15-14:00)

## 6 Blaenraglen waith: papur cwmpasu

(14:00-14:20) (Tudalennau 55 - 70)

## 7 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: trafod yr adroddiad drafft

(14:20 - 15:30) (Tudalennau 71 - 79)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA_JH-/3038/23

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd,
Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

24 Tachwedd 2023

Annwyl Jenny

Rwy'n croesawu ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Cyn iddo ymddangos gerbron y Pwyllgor ddydd Llun 4 Rhagfyr 2023. Gweler tystiolaeth wedi'i hatodi ar gyfer pob un o'r amodau gorchwyl. Mae tystiolaeth benodol i Iechyd, Addysg, Tai a Throsedd a Chyfiawnder wedi'i chymeradwyo gan y Gweinidogion priodol.

Mae data manwl a phenodol sy'n gysylltiedig ag Addysg, Iechyd, Tai a Throsedd a Chyfiawnder, wedi'u hatodi fel Atodiad 1. Mae gwaith yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn rhedeg ar draws y meysydd polisi. Cyflwynir tystiolaeth ychwanegol yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil fel Atodiad 2.

Mae'r flwyddyn gyntaf o roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith wedi canolbwyntio'n helaeth ar osod y sylfeini ar gyfer newid diwylliannol a systemig dyfnach. Rydym wedi datblygu ein strwythurau, prosesau a pholisïau llywodraethu ac wedi ffurfio tîm gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith, mae cryn ffordd i fynd o hyd. Bydd ail fersiwn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn canolbwyntio'n gryf ar weithredu a chyflawni.

Rwy'n parhau'n ymrwymedig iawn i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030 ac i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob ffurf.

Yr eiddoch yn gywir,

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Papur tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar gyfer Ymchwiliad i roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith ddydd Llun 4 Rhagfyr 2023**

## 1. Camau trawslywodraethol a thraws-sectoraidd i gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae'n bleser gennyf rannu'r cynnydd o ran rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith.

Mae gan Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol strwythur llywodraethu ac atebolrwydd cadarn a gaiff ei arwain a'i oruchwylio gan y Grŵp Atebolrwydd Allanol. Caiff y grŵp ei gyd-gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol a chan yr academydd Emmanuel Ogbonna, ac mae'n cwrdd bob deufis. Mae'r grŵp yn cynnwys wyth arbenigwr gwrth-hiliaeth allanol ac 11 cynrychiolydd cymunedol, gan ddarparu cymorth a her adeiladol i sicrhau atebolrwydd. Ceir Grŵp Cymorth a Her Mewnol trawslywodraethol hefyd sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ym mhob grŵp yn Llywodraeth Cymru. Mae Tîm Gweithredu ar waith i arwain y dasg o gydlynu cyflawniad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol trawslywodraethol ac mae'n cynnwys amrywiaeth o bobl â phrofiad byw o hiliaeth. Yn ogystal, mae pob maes polisi yn y cynllun wedi sefydlu is-grwpiau gyda swyddogion polisi, arbenigwyr a chynrychiolwyr cymunedol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau o fewn y cynllun a darparu mecanwaith atebolrwydd pellach.

Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd dwyochrog gyda phob gweinidog Cabinet i atgyfnerthu'r angen am gamau trawslywodraethol i ysgogi cynnydd a phwysigrwydd y camau hynny. Mae pob Gweinidog yn ymrwymo'n llwyr i gyflawni'r cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu rôl arwain gref ac amlwg wrth symud Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn ei flaen. Rwyf wedi cymryd camau rhagweithiol i ymgysylltu â phob sefydliad sector cyhoeddus i gymryd cyfrifoldeb am roi amcanion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith. Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Gwrth-hiliaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai, lle bu imi bwysleisio'r shifft angenrheidiol o gamau rhethregol i ddiriaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o recriwtio i Fforymau Rhanbarthol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a fydd yn hwyluso dealltwriaeth o brofiad byw ac yn cadarnhau ymgysylltiad uniongyrchol â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru.

I gael tystiolaeth fanylach a data penodol sy'n gysylltiedig ag Addysg, Iechyd, Tai a Throsedd a Chyfiawnder, cyfeiriwch at **Atodiad 1**.

## 2. Cynnydd a threfniadau monitro ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae'r mecanweithiau cynhwysfawr canlynol ar waith i ysgogi ac olrhain gweithrediad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ledled Llywodraeth Cymru:

I. Llunio adroddiadau rheolaidd: Mae pob maes polisi'n darparu adroddiadau rheolaidd, yn darparu diweddariadau ar eu cynnydd a'u cyfraniadau at nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
II. Mesurau Atebolrwydd: Mae'r Grŵp Atebolrwydd Allanol yn ymgynnull bob deufis, gan sicrhau bod meysydd polisi'n glynu wrth yr ymrwymiadau a amlinellwyd yn y Cynllun.
III. Ymgysylltu â Chymunedau: Mae cyfarfodydd chwarterol gyda chynrychiolwyr Fforwm Hil Cymru a gweminarau misol yn hwyluso'r broses o adrodd yn uniongyrchol ar gynnydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan sicrhau bod safbwyntiau cymunedol yn ganolog i waith cyflawni'r cynllun.
IV. Ymgysylltiad Lleol: Bydd Fforymau Rhanbarthol yn cael eu sefydlu i rymuso cymunedau lleol i gymryd rhan wrth fonitro effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chynnig mewnwelediad ac arbenigedd.
V. Mesur Effaith: Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn datblygu fframwaith i olrhain cynnydd ac i fesur effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.
VI. Rôl y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector: Mae awdurdodau lleol, iechyd, addysg a'r trydydd sector a gynrychiolir yn ein strwythurau llywodraethu yn eu tro, wrthi'n cyfrannu at weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac yn ei fonitro. Mae CLlLC, CGGC, TUC Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gyd yn aelodau o'r Grŵp Atebolrwydd Allanol, yn cyfrannu at fewnwelediadau, ac yn cynrychioli eu priod sectorau i sicrhau cynnydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
VII. Gwella'r gwaith o Dracio Cynnydd: Mae sianeli cyfathrebu tryloyw, sy'n cynnwys fforymau rhanbarthol, yn annog ymgysylltiad â'r cyhoedd, wrth i'r gwaith o integreiddio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gynlluniau a ariennir gan grantiau bwysleisio ein hymrwymiad i egwyddorion gwrth-hiliol. Mae gwaith Busnes Cymru o roi ei Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol ar waith yn gosod esiampl nodedig o weithredu'n barhaus ar draws sectorau.

**3. Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil a chasglu a dadansoddi data**

Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn gwella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd tystiolaeth ar gydraddoldeb, hil ac anabledd er mwyn i ni ddeall anghydraddoldebau hiliol ledled Cymru. Mae'r Uned wedi bod yn datblygu tair rhaglen: cyflawni prosiectau tystiolaeth, datblygu fframwaith gwerthuso Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chefnogi eraill gyda thystiolaeth o'r Cynllun.

Mae'r prosiectau a gyflawnir gan yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn cynnwys archwiliad o fylchau mewn nodweddion gwarchodedig yn ystadegau Llywodraeth Cymru. Caiff ymchwil ei chwmpasu gan archwilio'r galluogwyr i gasglu data cydraddoldeb. Cynhaliwyd arolwg peilot ar amrywiaeth arweinwyr mewn cyrff sector cyhoeddus a sut y caiff data amrywiaeth y gweithlu eu casglu.
Mae asesiad dichonoldeb o hwb sampl ethnigrwydd i Arolwg Cenedlaethol Cymru yn mynd rhagddo. Cyhoeddwyd datganiad ystadegol o Gyfrifiad ethnigrwydd ym mis Gorffennaf 2023. Cyhoeddwyd is-adroddiad ethnigrwydd o adroddiad Llesiant Cymru ym mis Medi 2023.

Mae Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn datblygu fframwaith gwerthuso a fydd yn amlinellu pa fesurau allweddol sydd eisoes yn bodoli a beth sydd ei angen i gadarnhau mesurau cyffredinol ychwanegol ar draws meysydd polisi ac o'u mewn. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni ar y cyd ag is-grŵp tystiolaeth y Grŵp Atebolrwydd Allanol, sy'n cynnwys arbenigwyr mesur a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau 2024. Bydd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn canolbwyntio ar gasglu profiadau byw pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig er mwyn mesur a deall effaith. Mae'r Uned yn ceisio gweithio'n agos gyda'r sawl â phrofiadau byw er mwyn sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu cynnwys.

Caiff yr Uned ei chynrychioli o fewn strwythurau amrywiol strwythur llywodraeth Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan gynnwys gweithgorau'r Grŵp Atebolrwydd Allanol a Grŵp Cymorth a Her Mewnol a pholisi, sy'n rhannu tystiolaeth a gwersi o fewn Llywodraeth Cymru a chan bartneriaid allanol. Maent yn ymgysylltu â chydweithwyr polisi a dadansoddol ar draws pob maes polisi i sicrhau y caiff tystiolaeth ei hystyried o ddechrau'r broses weithredu. Mae pwysleisio'r angen am ddulliau cyson o gasglu data ethnigrwydd yn bwysig yn y gwaith hwn.

Mae gwaith yr Uned wedi cadarnhau bod bylchau sylweddol yn y data ethnigrwydd sydd ar gael a'u manylder i gefnogi'r dull o fesur canlyniadau. Mae hyd a lled y bylchau hyn yn amrywio ar draws meysydd polisi. Mae'r Grŵp Atebolrwydd Allanol a mapio tystiolaeth hefyd wedi pwysleisio'r angen i gynllunio a defnyddio mwy o dystiolaeth o brofiad byw.  Bydd y prosiectau Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil cyhoeddedig a pharhaus amrywiol yn mynd i'r afael â rhai o'r bylchau blaenoriaeth o ran tystiolaeth a bydd fframwaith gwerthuso Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn darparu map ffordd o ran sut i fynd i'r afael â bylchau meintiol a bylchau mewn tystiolaeth profiad byw.

Gweler **Atodiad 2** hefyd am dystiolaeth fanylach ar waith yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn erbyn y ToR hwn.

### 3. Cynnwys pobl â phrofiad byw o weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Roedd cyd-gynhyrchu â'r rhai sydd â phrofiad byw yn ganolog i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r dull cydgynhyrchiol hwn yn sail i'r gwaith o gyflawni'r cynllun.

Caiff Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'i strwythur llywodraethu eu ffurfio gan arbenigwyr a chynrychiolwyr amrywiol a chanddynt brofiad byw; arbenigwyr a chynrychiolwyr cymunedol a chanddynt brofiad byw o hiliaeth sy'n arwain y Grŵp Atebolrwydd Allanol ac maent yn cynnig her adeiladol a chymorth wrth roi'r cynllun ar waith.

Mae Bwletin Rhanddeiliaid Gwrth-hiliol Cymru yn cyrraedd dros fil o danysgrifwyr, gan feithrin ymgysylltiad ar draws unigolion, sefydliadau cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat.

Daeth Uwchgynhadledd Gwrth-hiliaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol â mwy na 200 o uwch-arweinwyr a chynrychiolwyr o'r gwasanaeth cyhoeddus datganoledig a heb ei ddatganoli yng Nghymru ynghyd. Mae'r adroddiad o'r uwchgynhadledd yn amlygu cynrychiolaeth eang o wasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid, gan gynnwys unigolion o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig: - Uwchgynhadledd Gwrth-hiliaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru: Adroddiad ar y Deilliannau | LLYW.CYMRU.

Mae Fforwm Hil Cymru yn parhau i fod yn gyfrwng canolog i gyfathrebu'n uniongyrchol â sefydliadau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig allweddol, lle caiff cyfarfodydd eu cadeirio'n rheolaidd.

Mae gweminarau misol, a lansiwyd ym mis Medi, yn gwasanaethu fel platfform i randdeiliaid ledled y sectorau i olrhain cynnydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a sicrhau ymgysylltiad parhaus y rheini sydd â phrofiadau byw wrth ffurfio'r gwaith o gyflawni'r cynllun.

Mae sawl maes polisi wedi sicrhau help mentoriaid cymunedol i arwain a chynghori ar weithredu, gan gynnwys y tîm Gofal Plant sydd wedi penodi deg mentor gyda phrofiadau byw i lywio cynnydd a chyd-ffurfio eu gwaith.

Rwy'n disgwyl i Fforymau Rhanbarthol gael eu sefydlu y flwyddyn nesaf i nodi profiadau byw a hwyluso ymgysylltiad uniongyrchol â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru.

Mae'r mentrau hyn yn nodi camau breision ymlaen o ran ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgysylltiad eang, tryloywder, cynrychiolaeth amrywiol a chyfathrebu wrth symud nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn eu blaen.

**4. Cynnydd ar gyflwyno Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi gwneud cynnydd da yn ystod ei flwyddyn gyntaf i feithrin ymwybyddiaeth ac integreiddio polisïau gwrth-hiliol ar draws sectorau. Mae hyn yn cynnwys mwy o ddeialog ar egwyddorion gwrth-hiliol, integreiddio polisïau mewn sectorau sy'n cynnwys iechyd ac addysg, a sefydlu'r Grŵp Cymorth a Her Mewnol a'r Grŵp Atebolrwydd Allanol i hwyluso ymgysylltiad amrywiol.

Fodd bynnag, mae heriau'n parhau i roi'r camau cynlluniedig ar waith yn llawn. Mae gosod y sylfeini cychwynnol, megis y tîm gweithredu a'r strwythur llywodraethu wedi cymryd yn hwy na'r disgwyl.

Mae'r Adroddiad Blynyddol cyntaf i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr yn nodi cynnydd a heriau. Wrth symud ymlaen, bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn yn hanfodol i wireddu llawn botensial ac effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a sicrhau cynnydd parhaus wrth ddileu hiliaeth ar draws sectorau Cymru a sicrhau Cymru wrth-hiliol.

## 6. Ymyriadau pellach a rhwystrau wrth roi'r cynllun ar waith

Er mwyn cefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn effeithiol, mae angen nifer o ymyriadau:

I. Meithrin Gallu: Mae'n hanfodol buddsoddi mewn rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr ar draws sectorau. Dylai'r rhaglenni hyn ganolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth gynnil o egwyddorion gwrth-hiliol ymhlith staff a'u cyfarwyddo â'r ysgogiadau a'r adnoddau sydd ar gael.
II. Ymgysylltu â'r gymuned: Mae angen datblygu a rhoi mentrau penodol i bolisïau ar waith gyda'r nod o gyd-gynhyrchu â chymunedau lleol. Bydd y mentrau hynny'n meithrin ymdeimlad o berchenogaeth a chynhwysiant mewn perthynas â chymell gwrth-hiliaeth.
III. Casglu a Monitro Data: Mae cryfhau mecanweithiau casglu data yn hanfodol i fonitro effaith polisïau gwrth-hiliol. Bydd hyn yn sicrhau asesiad cywir o gynnydd ac yn helpu i nodi meysydd y mae angen sylw arnynt ar unwaith.
IV. Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth y Cyhoedd: Mae lansio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd yn hollbwysig i addysgu'r boblogaeth ehangach ynghylch pwysigrwydd arferion gwrth-hiliol.
V. Cydweithredu â'r Trydydd Sector a'r Sector Preifat: Mae cryfhau cydweithredu â'r trydydd sector a'r sector preifat yn hanfodol. Bydd annog y sectorau hyn i fabwysiadu arferion gwrth-hiliol yn eu sefydliadau yn cyfrannu'n sylweddol at newid ehangach mewn cymdeithas.

Er gwaetha'r cynnydd wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ceir rhai heriau a rhwystrau posibl. Mae’r cyd-destun cyllidebol sydd ohoni yn heriol.

Mae angen newidiadau mewn strwythurau llywodraethu a fframweithiau gweithredol er mwyn ymgorffori gwrth-hiliaeth mewn sefydliadau a datgymalu strwythurau hiliol - mae hyn yn cymryd amser, adnoddau ac ymrwymiad.

Mae deall yr ymyriadau pellach sydd eu hangen a'r rhwystrau yn hanfodol er mwyn mireinio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a sicrhau dull cyfannol o ddileu hiliaeth mewn modd effeithiol. Bydd gwerthusiad parhaus, cydweithredu â rhanddeiliaid ac ymateb rhagweithiol i heriau yn cyfrannu at lwyddiant cyffredinol y Cynllun.

## 7. Croestoriadedd

Mae pwysigrwydd croestoriadedd yn hanfodol i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Darparwyd hyfforddiant o fewn Llywodraeth Cymru gan yr [Athro Nelarine Cornelius](), ar gyfer cyd-ddealltwriaeth o groestoriadedd fel effeithiau cyfunol ffactorau cydamserol fel dosbarth, rhywedd, statws cymdeithasol-economaidd, anabledd, rhywioldeb a chenedligrwydd. Gall y cyfuniad hwn o ffactorau wella neu waethygu deilliannau i bobl a chânt eu hystyried yn ei ryng-gysylltedd. Mae pob is-grŵp polisi yn adrodd i'r Grŵp Atebolrwydd Allanol ar y deilliannau croestoriadedd yn eu meysydd polisi.

Yn ystod cam cyd-gynhyrchu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mynegwyd rhai pryderon bod y ffocws ar un grŵp gwarchodedig yn unig, a bod hyn wedi defnyddio

dull syml o gymharu â'r ffyrdd gwahanol y mae hiliaeth yn gweithio i ddylanwadu ar fenywod ethnig leiafrifol, plant, pobl hŷn, phobl anabl a grwpiau gwarchodedig eraill. Soniodd llawer nad oedd ymwybyddiaeth o ran sut mae'r nodweddion gwahanol hyn yn rhyngweithio, gan greu mwy o anghysonderau, yn ddigon amlwg yn y Cynllun drafft. Bathodd Kimberlé Crenshaw, ffeminydd du, y term ‘croestoriadedd’ (intersectionality) er mwyn disgrifio effaith gyfunol sawl math o ormes, a sut maent yn rhyngweithio a sut maent yn gydgysylltiedig (Crenshaw K, 1989.).

Rydym yn cydnabod bod gan fenywod ethnig leiafrifol, er enghraifft, faich trymach yn eu profiad hwy o hiliaeth, er enghraifft drwy eu profiad uniongyrchol o wasanaethau mamolaeth, neu wrth arwain ymgysylltiad ag ysgolion neu wasanaethau cymdeithasol ar ran eu henoed a'u teuluoedd. Rydym yn cydnabod hefyd bod dynion ifanc ethnig leiafrifol, er enghraifft, yn fwy tebygol na grwpiau eraill i gael eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu. Yn yr un modd, mae'r systemau a'r prosesau sy'n effeithio ar ffoaduriaid a gweithwyr mudol yn wahanol iawn i'r rhai sy'n effeithio ar bobl ethnig leiafrifol sydd â'r hawl barhaol i fyw ym Mhrydain. Mae amgylchiadau cymdeithasol-economaidd neu ‘ddosbarth’ yn chwarae rôl ychwanegol mewn cadw pobl ethnig leiafrifol dan ormes. Mae pobl ethnig leiafrifol yng Nghymru dros ddwywaith yn fwy tebygol na phobl Wyn i fyw yn y 10 y cant o'r rhannau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (20.6 y cant o bobl ethnig leiafrifol, o gymharu ag 8.3 y cant o bobl Wyn). Pobl Ddu sydd fwyaf tebygol o fyw yn y 10% o'r rhannau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda 35 y cant o'r holl bobl Ddu yn y byw yn yr ardaloedd hyn. Mae dros 1 o bob 10 o'r bobl sy'n byw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn dod o grwpiau ethnig leiafrifol, er eu bod ond yn cynrychioli 5% o gyfanswm y boblogaeth yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020).

Mae'r ddealltwriaeth hon yn hanfodol wrth ffurfio a gweithredu polisïau yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae croestoriadedd yn amlygu'r angen i gydnabod nad yw gwahaniaethu a manteision yn seiliedig ar un hunaniaeth yn unig ond yn deillio o ryngweithiad cymhleth o sawl categoreiddiad cymdeithasol. Mae canllawiau clir wedi'u darparu bod angen ystyried sut mae meysydd polisi priodol o fewn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cyfrif am y croestoriadau hyn i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r profiadau a'r heriau amrywiol y mae grwpiau gwahanol yn eu hwynebu ar sail eu hunaniaethau croestoriadol. Mae'r dull hwn yn sicrhau gweithrediad cynhwysfawr a chynhwysol o'r cynllun, gan gyfrif am y profiadau a'r anghydraddoldebau amrywiol y mae grwpiau demograffig gwahanol yn dod ar eu traws.

## Atodiad 1:
## Y Gymraeg ac Addysg

- Mae **ysgolion a'r gweithlu addysg** yn recriwtio athrawon o gymunedau ethnig leiafrifol. Mae'r Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yn nodi camau gweithredu a lle mae gwaith yn parhau, cydweithrediad â'r sector AGA.
- Mae ein cynllun cymhellion AGA i athrawon dan hyfforddiant ethnig leiafrifol ar gael am ail flwyddyn gyda grant o hyd at £5,000, a delir mewn dau randaliad i fyfyrwyr cymwys sy'n dechrau eu rhaglenni AGA ôl-raddedig ym mlwyddyn academaidd 2023/24.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Brifysgol Agored i ehangu'r pynciau uwchradd sydd ar gael drwy'r llwybrau AGA amgen, gan gynnig cyrsiau TAR rhan-amser a chwrs TAR ar sail cyflogaeth (TAR gyda chyflog) i athrawon dan hyfforddiant na allant ddilyn cymwysterau AGA amser llawn. Mae'r pynciau ychwanegol ar gael o'r flwyddyn academaidd hon (Blwyddyn Academaidd 2023/24).
- Mae Llywodraeth Cymru'n darparu grantiau hyfforddiant a chyfraniad cyflog i fyfyrwyr dan hyfforddiant cymwys sy'n ymgymryd â'n TAR ar sail cyflogaeth (TAR gyda chyflog) ledled Cymru ac rydym wedi ymrwymo i barhau â'r cyllid grant hwn i athrawon dan hyfforddiant newydd am ddwy flynedd academaidd arall, AY2024/25 ac AY2025/26. Mae'r dull hwn yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant sy'n methu â chael darpariaeth AGA amser llawn, ac ysgolion i ddatblygu eu gweithlu o fewn eu cymuned.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi ein Mentoriaid AGA Cymunedol, gan roi cyllid i bob Partneriaeth AGA yng Nghymru i'w galluogi i gael gafael ar unigolion sydd â'r profiad byw a'r wybodaeth i gefnogi a herio'r gwaith o roi eu cynlluniau recriwtio athrawon AGA Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol unigol ar waith.
- Cafodd prosiect Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) Llywodraeth Cymru ei lansio'n ffurfiol yn ystod hydref 2022, ac mae'n hollbwysig er mwyn gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru a sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb.
- Mae'r prosiect yn cael effaith gynyddol ar draws Cymru gyfan, gydag 20,000 o arweinwyr ac addysgwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau byw, ymgyngoriadau ac adnoddau anghydamseredig yn ystod blwyddyn academaidd 22/23 yn unig.
- Mae gwaith i gasglu amrywiaeth o wybodaeth am ymgysylltu ac effaith mewn perthynas â DARPL yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Cafodd darpariaeth wrth-hiliol DARPL i uwch-arweinwyr a llywodraethwyr o'r sector ysgolion ei chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ym mis Mai 2023.
- Symudodd prosiect DARPL ymlaen i weithredu cam 2 ym mis Medi 2023. Mae hyn yn cynnwys ymestyn campws rhithwir DARPL; mireinio cymuned ymarfer hydredol, gwaith wedi'i deilwra gyda chonsortia addysg ac awdurdodau lleol a ffocws allweddol ar ledaenu ehangach, gan gynnwys allgymorth rhyngwladol.
- Rhoddodd cynrychiolwyr DARPL brif araith a sesiynau galw heibio yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain ym mis Medi a mynychodd un o cynrychiolwyr DARPL Gynhadledd Arweinyddiaeth Ryngwladol

Jamaica a'r DU, er mwyn rhoi cyflwyniad ar waith cydweithredol sy'n canolbwyntio ar DARPL rhwng Cymru a Jamaica.

- Mae Cymru wedi arwain y ffordd, gan fod y rhan gyntaf o'r DU i'w gwneud hi'n ofynnol i addysgu am hanes a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Dechreuwyd ar y gwaith o gyflwyno hyn i ysgolion cynradd ym mis Medi 2022, ac o fis Medi 2023, caiff y cwricwlwm i Gymru ei addysgu mewn ysgolion a lleoliadau ledled Cymru a bydd ein gwaith o gyflwyno fesul cam yn parhau o flwyddyn i flwyddyn mewn ysgolion uwchradd.
- Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ein Cwricwlwm i Gymru newydd a'n hathrawon dan hyfforddiant, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda sector AGA i ddatblygu Meini Prawf ar gyfer Achredu Rhaglenni AGA yng Nghymru wedi'i adnewyddu. Mae'r meini prawf wedi'u hadnewyddu yn datgan yn benodol ei bod yn ofynnol i'r holl raglenni AGA yng Nghymru fod yn wrth-hiliol, ac mae'n rhoi adnoddau i athrawon dan hyfforddiant allu creu amgylcheddau dysgu gwrth-hiliol i'n plant a'n pobl ifanc.
- Gwobr addysgu proffesiynol newydd Llywodraeth Cymru: Cafodd Gwobr Betty Campbell MBE, am hyrwyddo cyfraniadau a safbwyntiau cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ei rhoi am y tro cyntaf yn 2022 i Ysgol Uwchradd Llanwern yng Nghasnewydd.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau ysgol anstatudol newydd i ddisgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym mis Tachwedd. Gan ddefnyddio enghreifftiau ymarferol effeithiol, bydd y canllawiau yn helpu athrawon i wella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac yn mynd i'r afael â'r heriau y gall disgyblion gael profiad ohonynt; a sut i chwalu'r rhwystrau i ddeall eu diwylliannau. Mae hyn yn cynnwys syniadau i ymgysylltu â chymunedau lleol.

- Mewn **Addysg Bellach (AB)**, sefydlwyd grŵp llywio ymroddedig i sicrhau y caiff y rhaglen waith ei chyd-gynhyrchu gan y bobl sydd â phrofiad byw ac arbenigedd ar wrth-hiliaeth.
- Mae gan bob sefydliad AB yng Nghymru gynllun gweithredu gwrth-hiliaeth ar waith bellach, a gefnogir gan ganllawiau a gomisiynwyd gan y Grŵp Arweinyddiaeth Du.
- Mae “metafyd” cwricwlwm gwrth-hiliol AB unigryw yn cael ei ddatblygu, dan arweiniad Coleg Caerdydd a'r Fro, a bydd yn cael ei gyflwyno ledled Cymru o 2023/24 ymlaen.
- Mae rhaglen DARPL yn cael ei hymestyn i'r sector AB o 2022/23 ymlaen, gan ddechrau gyda chyfres ddysgu broffesiynol i uwch-arweinwyr.
- Yn y sector Addysg Uwch, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sy'n rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith. Ymhlith y cyflawniadau sy'n werth sylw hyd yma mae sefydlu rhwydwaith gwrth-hiliaeth cadarn, cyhoeddi adroddiadau cydraddoldeb hil, a darparu canllawiau ar fonitro anghydraddoldebau.
- O fis Ebrill 2024 ymlaen, bydd y cyfrifoldeb hwn yn symud i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn meddu ar amrywiaeth eang o bwerau, gan gynnwys cyfrifoldeb rheoleiddio am addysg drydyddol ac addysg uwch yng Nghymru.
- Cefnogwn y gwaith o ddarparu cyllid gwella i awdurdodau lleol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

- Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn gweithio gyda sefydliadau fel Gyrfa Cymru i roi cyngor a hyrwyddo gyrfaoedd ym myd addysg.
- Rydym yn parhau i weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu adroddiadau o geisiadau a derbyniadau lleiafrifoedd ethnig i gymwysterau AGA fel rhan o'u prosesau monitro ac adrodd misol parhaus.
- Gwella meithrin gallu a chynaliadwyedd wrth symud ymlaen, bydd cam 2 DARPL yn cynnwys buddsoddiad sylweddol mewn gwaith ymgynghorol haen ganol. Mae'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo, gydag ymgysylltiad cadarnhaol gan gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, Cymwysterau Cymru ac Estyn ar ddechrau tymor yr hydref.

- Ym maes y **Gymraeg**, galwodd swyddogion Cymraeg 2050 grŵp o randdeiliaid allweddol ynghyd i safoni set o derminoleg cyfrwng Cymraeg gyda chanllawiau.
- Cyhoeddodd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ddadansoddiad manwl o ddata Cyfrifiad 2021 mewn perthynas ag ethnigrwydd siaradwyr Cymraeg.
- Cafodd digwyddiad panel, sef y cyntaf o'i fath yng Nghymru, i ddysgu am brofiadau siaradwyr Cymraeg ethnig leiafrifol ei gomisiynu gan bartner i Is-adran Cymraeg 2050, sef y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ar y cyd â Choleg Caerdydd a'r Fro. Cynhaliwyd y digwyddiad, sef Perthyn, yn y Senedd ar 20 Mawrth 2023, ac roedd llawer o bobl yn bresennol a chafwyd adborth da ganddynt.
- Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn adolygu ei gwaith ar wrth-hiliaeth drwy'r amser, ac mae yn y broses o ddatblygu strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyffredinol.

## Iechyd a gofal cymdeithasol

Yn y maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gwnaeth y gwaith o sefydlu Bwrdd Gweithredu a Her dan gadeiryddiaeth Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru ddarparu mecanwaith llywodraethu ac atebolrwydd cryf i gyflymu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

At hynny, mae dangos arweinyddiaeth ar y lefel uchaf yn y Grŵp wedi sicrhau bod y camau gwrth-hiliol wedi cadw proffil oherwydd y cylch craffu, ac wedi galluogi arweinwyr polisi i symud camau gweithredu ymlaen gyda phartneriaid allweddol. Mae'r Bwrdd wedi gwahodd partneriaid a rhanddeiliaid allanol i gyflwyno'r rhwystrau a'r heriau sy'n eu hwynebu wrth roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith ac i weithredu fel cyfaill beirniadol.

Mae gweithgor Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Gofal Cymdeithasol yn dwyn ynghyd bartneriaid, rhanddeiliaid allweddol ac aelodau'r Grŵp Atebolrwydd Allanol i sicrhau atebolrwydd ar y cyd ac i roi sicrwydd i Fwrdd Gweithredu a Her Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fod camau gweithredu gofal cymdeithasol yn cyflawni yn erbyn y nodau yn y cynllun.

- Caiff cynnydd a heriau o ran rhoi camau gweithredu **penodau Iechyd a Gofal Cymdeithasol** Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith eu monitro gan fecanweithiau atebolrwydd wedi'u teilwra, gan gynnwys Gweithgor Gofal Cymdeithasol a Bwrdd Gweithredu a Her Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r mecanweithiau hyn wedi cynnal cefnogaeth lefel uchel gan y Tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol sydd wedi gweithio trwy'r Bwrdd, i ddarparu dull ar y cyd o fynd i'r afael â rhwystrau systemig a materion o ran adnoddau.
- Am y tro cyntaf yn 22/23, bu'n rhaid i bob Cadeirydd Bwrdd y GIG yng Nghymru ymateb i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn amlinellu pa gamau yr oeddent hwy a'u haelodau Bwrdd wedi'u cymryd, er mwyn dangos arweinyddiaeth wrth-hiliol yn eu sefydliad GIG.
- Bu'n rhaid i bob aelod Bwrdd ym mhob sefydliad GIG yng Nghymru nodi amcan datblygiad personol sy'n cynnwys gwrth-hiliaeth. Bu'n rhaid i bob un o sefydliadau'r GIG hefyd lunio cynllun gweithredu gwrth-hiliol ac ymroi i roi gwybod am anghydraddoldeb ym mhrofiad y gweithle a gweithredu arno.
- Rhoddir gwybod am waith y Gweithgor Gofal Cymdeithasol yn rheolaidd i'r uwch dîm arwain gofal cymdeithasol, a bydd uwch-aelodau'r sector gofal cymdeithasol yn bresennol yn y grŵp. Mae cyflawni hefyd yn rhan o gynllun busnes Gofal Cymdeithasol Cymru a rhoddir gwybod amdano i'r Bwrdd yn chwarterol.
- Bydd data'r gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu dadansoddi ac adroddir arnynt am y tro cyntaf trwy gyflwyno Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu gyda dangosyddion yn mesur annhegwch o ran arwain a dilyniant gyrfa, DPP a hyfforddiant, prosesau disgyblu a gallu a Bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu.
- Mae Diverse Cymru wedi cwblhau archwiliad o holl bolisïau'r gweithlu GIG Cymru o safbwynt gwrth-hiliol. Caiff argymhellion yr archwiliad eu hymgorffori yn y protocol ar gyfer datblygu ac adolygu holl bolisïau gweithlu GIG Cymru a chaiff egwyddorion ac argymhellion allweddol eu rhannu i'w defnyddio mewn prosesau adolygu a dylunio polisïau lleol.

- Ym mis Medi 2023, penododd Llywodraeth Cymru reolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y tîm polisi Mamolaeth a Newyddenedigol, i symud y pwyntiau gweithredu mamolaeth a newyddenedigol ymlaen yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Bydwraig yw'r rheolwr sy'n cynrychioli'r mwyafrif byd-eang a bydd yn parhau i weithio gyda grwpiau rhanddeiliaid cymunedol allweddol i sicrhau y caiff atebion cynaliadwy eu rhoi ar waith ar gyfer materion allweddol. Mae hi wrthi'n cwmpasu fframwaith cenedlaethol ar gyfer lleisiau mamolaeth a newyddenedigol i ddylanwadu ar bolisïau a gwaith cyflwyno gwasanaethau.
- Mae'r rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi gweithio gyda Choleg Brenhinol y Bydwragedd i gychwyn fforwm cymorth gan gymheiriaid (Mamolaeth Gynhwysol Cymru) i ddarparu arweiniad ac i rymuso gweithlu'r mwyafrif byd-eang. Mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Bydwragedd (RCM), bydd tueddiadau a themâu yn cael eu hadrodd i Benaethiaid/y Cyfarwyddwr Bydwragedd yng nghyfarfodydd Cymru ac i'r Prif Swyddog Bydwreigiaeth er mwyn llywio cynlluniau polisi i'r dyfodol.
- Mae swyddogaeth Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu wedi'i sefydlu o fewn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan weithio ar y cyd â phartneriaid sy'n cyflawni ym mhob rhan o'r GIG a Gofal Cymdeithasol. Caiff y swyddogaeth hon ei harwain gan yr Athro Anton Emmanuel a oedd wedi arwain Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu ar gyfer NHS England cyn hynny, ers 2020. O'i gweithredu'n llawn, bydd Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu yn nodi ac yn mesur cynnydd ar ddangosyddion Cydraddoldeb Hil ar gyfer y gweithlu ar draws Gofal Eilaidd, Sylfaenol a Chymdeithasol.
- Bydd casgliad data cyntaf Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu ar gyfer gofal eilaidd ym mis Ebrill 2024, gyda gwaith casglu data ar gyfer gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol yn cychwyn cyn mis Hydref 2024. Bydd adroddiadau yn cael eu cynhyrchu ar lefel Sefydliadol a chenedlaethol. Bydd y gofyniad i adrodd ar y data hyn yn y GIG yn cael ei fandadu drwy Fframwaith Perfformiad y GIG a bydd yn cynnwys data ar draws nodweddion gwarchodedig.
- Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddwyd cyllid ar gyfer cyfnod gweithredu Mamolaeth Ddigidol Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg data dibynadwy i olrhain patrymau clinigol a chanlyniadau gwael mewn amser real ar sail ethnigrwydd, gan sicrhau y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n cael rhybuddion amserol er mwyn gallu ymyrryd ac uwchgyfeirio. Bydd hefyd yn fodd i sefydlu dangosfwrdd cenedlaethol cadarn a fydd yn cynnwys data allweddol ar sail ethnigrwydd mamau a babanod er mwyn sicrhau y caiff gwaith ei flaenoriaethu er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau gwael.
- Yn unol â'r ymrwymiad a roesom yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, rydym yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleiafrifoedd Ethnig Iechyd Meddwl i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae cymunedau ethnig leiafrifol yn eu hwynebu ac i gefnogi mynediad gwell i wasanaethau. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar Strategaeth Iechyd Meddwl newydd ar ddiwedd y flwyddyn a bydd hyn yn cynnwys ffocws penodol ar gefnogi'r rheini gyda nodweddion gwarchodedig.
- Mae hyrwyddo cymhwysedd diwylliannol un flaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl i Gymru – ac rydym wedi rhoi cyllid ychwanegol i elusen Diverse Cymru er mwyn iddi barhau â'i chynllun a'i hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol. Daw'r cyllid hwn i ben ym mis Mawrth 2024. Bydd hyrwyddo cymhwysedd diwylliannol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn y

Strategaeth Iechyd Meddwl newydd i Gymru – a chaiff hyn hefyd ei ategu gan Gynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru.

- Mae meysydd gwaith allweddol eraill yn cynnwys datblygu canllawiau (gan Gwelliant Cymru) i wella mynediad i ymyriadau seicolegol a'u darparu i bobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd 2023.
- Gan gydnabod anghenion grwpiau penodol, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ariannu Straen Trawmatig Cymru (£1.2 miliwn y flwyddyn) gyda'r nod o wella iechyd a llesiant pobl o bob oed sy'n byw yng Nghymru ac sy'n wynebu risg o ddatblygu anhwylder straen wedi trawma (PTSD) neu anhwylder straen wedi trawma cymhleth (CPTSD) neu sydd ag un ohonynt yn barod. Mae gan Straen Trawmatig Cymru ffrwd waith benodol sy'n canolbwyntio ar anghenion ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr (gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad byw).
- Un o nodau hanfodol ein gwaith i ddatblygu olynydd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl fydd lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad a chanlyniadau i bob grŵp lle mae rhwystr i gael gafael ar gymorth. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau yn bodloni safonau Cymru gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth, a hefyd iaith a nodweddion gwarchodedig eraill. Rydym yn parhau i sicrhau bod adnoddau ar gael mewn sawl iaith –er mwyn cefnogi mynediad i ofal iechyd, sydd wedi cynnwys cyfieithu adnoddau megis **Pecyn Cymorth y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ar gyfer pobl sydd wedi bod drwy ddigwyddiadau trawmatig a deunyddiau i hyrwyddo** llinell gymorth iechyd meddwl CALL (i fwy nag 20 o ieithoedd). Mae CALL hefyd yn defnyddio Language Line – sy'n golygu y gall unrhyw un sy'n ffonio'r llinell gymorth gael cymorth a chyngor yn ei ddewis iaith. Rydym hefyd yn gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi argymhellion Adroddiad HEAR 2 ar waith ar fynediad i ddehonglwyr ymhlith ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr.
- O ran monitro effeithiau yn barhaus: Mae trefniadau monitro parhaus ar waith ar gyfer mentrau fel '111, Pwyso 2' a llinell gymorth iechyd meddwl CALL. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r Set Ddata Graidd Iechyd Meddwl. Rydym yn blaenoriaethu data demograffig – megis oedran, rhywedd ac ethnigrwydd – a fydd yn ein helpu i gynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion a gofynion ein poblogaeth. Rydym yn deall yr angen i ddata fod ar gael i'r cyhoedd ac rydym yn gweithio tuag at gael dangosfwrdd cenedlaethol cychwynnol ar gyfer gweithgarwch iechyd meddwl cyn gynted â phosibl. Wrth i ni ddatblygu ein Strategaeth Iechyd Meddwl olynol, byddwn yn ystyried pa gamau pellach y gallwn eu cymryd. Bydd hyn yn destun ymgynghoriad ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn.
- Yn fwy cyffredinol, gwyddom fod bylchau yn y data ar anghydraddoldebau iechyd. Mae'r bylchau hyn yn ei gwneud hi'n anodd asesu anghenion, targedu a blaenoriaethu ymyriadau yn gywir a gwerthuso eu heffaith ar bobl Cymru. Ar ben hynny, gellid ehangu effaith bosibl data wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd pe bai setiau data'n cael eu dwyn ynghyd yn fwy effeithiol. Mae is-grŵp data (sy'n rhan o brif Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG) yn gwneud gwaith i ystyried sut i fynd i'r afael â'r bylchau presennol a llywio ymyriadau a pholisïau yn y dyfodol. Drwy fynd i'r afael â'r bylchau hyn mewn data, bydd Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG yn sicrhau y caiff ffocws ar anghydraddoldebau iechyd ei wreiddio ym mhob rhan o waith blaenoriaethol sefydliadau GIG Cymru.

- Ers iddo gael ei sefydlu ym mis Ebrill 2023, mae Llais, sef enw gweithredu Corff Llais y Dinesydd, wedi pwysleisio'r angen am sail sefydliadol mewn fframweithiau gwrth-hiliaeth a dulliau o hwyluso hunan-myfyrdod parhaus, atebolrwydd a sylw i degwch hiliol, a darparu cwestiynau i arwain y myfyrdodau hynny a'r ystyriaeth honno. Drwy fabwysiadu'r dulliau hyn, nod Llais yw bod yn fwy hygyrch ac yn fwy cynhwysol mewn arferion cyflogaeth a gweithlu ac wrth nodi profiadau ymarferol pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

- Mewn gofal cymdeithasol, mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cwblhau prosiect i fapio anghenion iaith, dehongli/cyfieithu a diwylliannol presennol pobl ethnig leiafrifol sy’n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn helpu i gynllunio gwasanaethau presennol a gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a darparu cyfieithiadau llafar ac ysgrifenedig. Roedd a wnelo'r gwaith hwn â sicrhau gwaelodlin o niferoedd a natur y cwynion mewn perthynas â diffyg darpariaeth o gymharu â'r newidiadau a geisiwyd. Mae'r adroddiad ar gael yn: [Darparu Gofal Cymdeithasol mewn Cymru Wrth-hiliol (adss.cymru)]
- Mae swyddogion gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'u cydweithwyr ystadegau i gynnal dadansoddiad o'r holl ystadegau a gyhoeddwyd gan wasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys mesur ethnigrwydd, a'r croestoriad â nodweddion gwarchodedig eraill. Nododd y dadansoddiad hwn feysydd lle roedd angen gwneud gwaith datblygu pellach a gwnaed argymhellion o ran sut i lenwi unrhyw fylchau yn y data cyhoeddedig. Mae'r Cyfrifiad Oedolion sy’n Derbyn Gofal a Chymorth bellach yn casglu data ar yr holl oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol ac yn cynnwys pwyntiau data ar ethnigrwydd fel bod gennym well gwybodaeth am bobl ethnig leiafrifol sy’n cael gwasanaeth cymdeithasol a’r mathau o wasanaethau y maent yn eu cael.
- Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi bylchau mewn data a pha gamau gweithredu y gellir eu cymryd i wella ansawdd data ar hunaniaethau hil ac ethnigrwydd (ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchodedig eraill). Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i adolygu a diwygio’r Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â materion yn ymwneud â defnyddwyr ethnig lleiafrifol gwasanaethau gofal cymdeithasol a’r gweithlu gofal cymdeithasol (gan gynnwys profiadau ymarferol).
- Bydd hyn yn gwella’r gwaith o ddatblygu, casglu a defnyddio tystiolaeth yng Nghymru a chysylltu unrhyw fylchau mewn ymchwil a all helpu i gyflawni’r holl Nodau a Chamau Gweithredu ym maes gofal cymdeithasol yn y Cynllun hwn.
- Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i wneud yn siŵr bod amrywiaeth yn eu penodiadau cyhoeddus drwy ymarfer recriwtio presennol y Bwrdd. Mae cyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu aelodaeth yr holl grwpiau o randdeiliaid er mwyn gosod disgwyliadau o ran cynrychiolaeth o gymunedau ethnig lleiafrifol.

## Tai

- Mae adroddiad amrywiaeth Tai Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer 2021 yn dangos cynrychiolaeth o 6% i bobl ethnig leiafrifol ar fyrddau, sydd fymryn yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol. Mae hyn yn gynnydd o 4% ers 2014. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi'r diffyg amrywiaeth ymhlith cadeiryddion cymdeithasau tai ac yn pwysleisio'r angen am fwy o gynhwysiant mewn swyddi arwain.
- Mae prosiect Get into Housing yn cynnig lleoliadau gwaith am dâl i unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir o gymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghaerdydd, sy'n cyd-fynd â nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Ar ben hynny, o 2023-24 ymlaen, bydd yn ofynnol i sefydliadau tai sy'n derbyn grantiau gael polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, gyda sylw penodol ar ei roi ar waith.
- Mae rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn parhau i gynnal prosiect ‘llwybr at aelodaeth bwrdd’. Cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yw'r prosiect, a'i nod yw sicrhau bod unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol sydd am gyfrannu at arwain sefydliad mewn sefyllfa well i wneud hynny.
- Mae cynnydd wedi'i wneud wrth hyfforddi staff mewn sefydliadau tai. Ym mis Mawrth 2023, roedd Tai Pawb wedi rhoi hyfforddiant i 547 o bobl ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a dywedodd 92% o'r rhai a fu'n bresennol y byddent yn argymell yr hyfforddiant i eraill.
- Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd wedi llwyddo i recriwtio aelodau annibynnol o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Cafodd yr hysbyseb ar gyfer mynegi diddordeb yn rôl Cadeirydd y Bwrdd ei rhannu â sefydliadau cydraddoldeb, megis Anabledd Cymru, Stonewall Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru i annog casgliad mwy amrywiol o ymgeiswyr.
- Cafodd ymgyrch recriwtio'r gweithlu er mwyn annog amrywiaeth eang o bobl i ymuno â'r sector cymorth digartrefedd a thai ei lansio ym mis Chwefror 2023. Er y daw canlyniad yr ymgyrch hon i'r amlwg yn fwy cyflawn dros amser, mae'n werth nodi ar hyn o bryd mai nifer defnyddwyr y safle swyddi ym mis Mawrth 2023 oedd 19,101 o gymharu â 574 cyn yr ymgyrch. Mae'r adborth cychwynnol wedi dangos cynnydd yn amrywiaeth, nifer ac ansawdd yr ymgeiswyr.

## Trosedd a Chyfiawnder

- Mae ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol yn cynnwys pennod benodol ar Drosedd a Chyfiawnder, gan amlinellu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei symud ymlaen, gan gynnwys gwaith ar droseddau casineb a thynnu sylw at bwysigrwydd gwrth-hiliaeth pryd bynnag y byddwn yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar faterion cyfiawnder. Mae'n tynnu sylw at y gwaith ar y cyd gan bartneriaid Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, gan gynnwys Plismona yng Nghymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru, ar gynllun gwrth-hiliaeth penodol ar gyfer y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Cafodd y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru yma ei lansio ar 8 Medi 2022 a chafodd ei gyd-gynhyrchu gyda phobl o leiafrifoedd ethnig ledled Cymru. Mae'r Cynllun yn ategu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ac rydym wedi cytuno ar ddull o reoli'r rhyngweithio rhwng y ffordd y caiff y ddau gynllun eu cyflawni.
- Er mwyn cael system cyfiawnder troseddol gwrth-hiliol a mwy cymwys yn ddiwylliannol, mae'r Tasglu Cydraddoldeb Hil, sy'n gyfrifol am roi'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol ar waith, wedi sefydlu ffrwd waith ar “Gymhwysedd Diwylliannol, Addysg a Hyfforddiant. Mae'r ffrwd waith hon yn dod o hyd i'r pecynnau addysg a hyfforddiant effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymwneud â hil sydd ar gael ar hyn o bryd i gyflogeion ym mhob rhan o'r gweithlu cyfiawnder troseddol yng Nghymru.
- Rydym wedi gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill i greu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol a lansiwyd ym mis Medi 2022. Mae'n nodi saith ymrwymiad er mwyn sicrhau system gyfiawnder wrth-hiliol yng Nghymru yn ymarferol. Mae'r Cynllun yn ategu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac rydym wedi cytuno ar ddull o reoli'r rhyngweithio rhwng y ffordd y caiff y ddau gynllun eu cyflawni.
- Mae panel annibynnol yn goruchwylio Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol, a chafodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2023. Datblygwyd Cynllun Gweithredu 2 flynedd i gymell cynnydd ar wireddu ymrwymiadau yn y cynllun.
- Rydym yn cefnogi dioddefwyr troseddau casineb a gafodd eu cymell gan hiliaeth drwy ariannu Canolfan Cymorth Casineb Cymru, a gynhelir gan Cymorth i Ddioddefwyr Cymru. Mae hyn yn darparu gwasanaeth eirioli a chyngor cyfrinachol am ddim i bobl sydd wedi dioddef troseddau casineb hiliol, gan gynnwys troseddau casineb croestoriadol.
- Rydym yn gweithio i ddileu agweddau creulon trwy gyflwyno ein hymgyrch gyfathrebu atal troseddau casineb, sef Mae Casineb yn Brifo Cymru, a fydd ar waith tan o leiaf fis Mawrth 2024.
- Rhoddir cyllid i Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost ar gyfer cyflogi gweithiwr cymorth yng Nghymru i annog gweithgareddau coffa yng Nghymru ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2024.
- Mae'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn ariannu wyth tîm ledled Cymru i roi cymorth rheng flaen i gymunedau, er mwyn helpu i fonitro a lliniaru tensiynau. Bydd y rhaglen yn cael ei hariannu tan 2025/2026.
- Rydym yn cefnogi partneriaid cyfiawnder troseddol i gryfhau'r sail dystiolaeth i nodi gwahaniaethau hiliol yn y system gyfiawnder. Fel rhan o'r gwaith i fonitro

cynnydd o ran rhoi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol ar waith, mae dangosfwrdd gwahaniaethau ar sail hil wedi cael ei ddatblygu a gaiff ei lenwi â data gan bob un o'r partneriaid cyfiawnder troseddol sydd wedi ymrwymo i'r Cynllun.

- Datblygodd Canolfan Cymorth Casineb Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru Fforwm Eiriolaeth Profiad Bywyd i geisio gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Mae'r Fforwm yn cynnwys cyn defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys cynrychiolwyr o bum haen troseddau casineb. Mae'r Fforwm yn rhoi adborth gwerthfawr i'r Ganolfan, a ddefnyddir i adolygu'r gwasanaeth, fel gweithdrefnau cwyno'r Ganolfan a nodi rhwystrau i roi gwybod am droseddau casineb. Gwnaeth aelodau'r Fforwm helpu i lywio datblygiad cam diweddaraf ymgyrch atal troseddau casineb Llywodraeth Cymru hefyd, sef Mae Casineb yn Brifo Cymru.
- O ran trosedd a chyfiawnder, bydd Panel Annibynnol Goruchwylio a Chynghori yn cyfrannu at brofiadau bywyd unigol a monitro'r gwaith o gyflawni'r 7 ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru dan arweiniad partneriaid Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Bydd yn profi p'um a yw'r cynllun yn gwneud gwahaniaeth go iawn ar lefelau llawr gwlad a gweithredol. Datblygwyd Cynllun Gweithredu dwy flynedd drafft i bontio'r bwlch gweithredu a bydd adroddiad blynyddol yn nodi'r cynnydd y mae pob partner cyfiawnder yn ei wneud tuag at yr ymrwymiadau hyn.
- Fel rhan o'r gwaith i fonitro cynnydd o ran rhoi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol ar waith, mae dangosfwrdd gwahaniaethau ar sail hil wedi cael ei ddatblygu a gaiff ei lenwi â data gan bob un o'r partneriaid cyfiawnder troseddol sydd wedi ymrwymo i'r Cynllun. Caiff ei ddefnyddio i fesur effeithiolrwydd y cynllun.
- Caiff swyddogion Llywodraeth Cymru o'r Uned Gwahaniaethau ar Sail Hil eu cynrychioli ar ffrwd waith Data a Pherfformiad Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol a byddant yn sicrhau bod gwaith y ffrwd waith hon yn cydgysylltu â'r gwaith a wneir yn yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddwyn partneriaid ym maes cyfiawnder troseddol i gyfrif am gynnydd ac annog newid.

# Atodiad 2

## Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil

Ymhlith y prosiectau y mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil wedi bod yn eu cyflawni/wedi'u cyflawni yn cynnwys:

- Archwiliad data o ystadegau nodweddion gwarchodedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sydd wedi sefydlu ble mae bylchau'n bodoli (bydd y cam cyntaf yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau 2024). Mae ail gam y gwaith hwn yn ymwneud ag edrych ar ystadegau a gesglir ond na chânt eu cyhoeddi'n fewnol a cheisio deall pam na chânt eu cyhoeddi ac annog pobl i wneud hynny lle y bo'n bosibl.
- Ochr yn ochr â'r archwiliad, mae’r uned yn cwmpasu prosiect ymchwil i gyd-fynd ag ef sy'n ystyried yr heriau a'r rhwystrau i gasglu data cydraddoldeb ar draws amrywiaeth o dystiolaeth. Nod y prosiect hwn yw nodi atebion i'r heriau hyn er mwyn cefnogi dadansoddwyr i fynd i'r afael â nhw.
- Cynhaliwyd arolwg peilot o amrywiaeth arweinwyr mewn cyrff sector cyhoeddus a sut y caiff data amrywiaeth y gweithlu eu casglu er mwyn llywio gwaith yn y dyfodol yn ymwneud ag amrywiaeth y gweithlu ac arweinwyr cyhoeddus. Ochr yn ochr â'r arolwg, mae adolygiad o lenyddiaeth yn arfarnu strategaethau i gynyddu amrywiaeth, rhwystrau i gyfraddau recriwtio, cadw a dilyniant gyrfa, dulliau ar gyfer monitro amrywiaeth a buddiannau ac effeithiau amrywiaeth. Cyhoeddwyd yr arolwg yn ystod haf 2023 ac mae disgwyl adroddiad ar yr arolwg peilot ar ddechrau 2024; bydd hyn yn cynnwys argymhellion i gasglu gwybodaeth am gydraddoldeb ar Fyrddau Cyrff Sector Cyhoeddus yn barhaus ac yn rheolaidd.
- Mae asesiad dichonoldeb o hwb sampl ethnigrwydd i Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cael ei gynnal. Cwblhawyd adolygiad cyflym mewnol o opsiynau hwb sampl posibl ar gyfer hyn, ac mae asesiad technegol o ddulliau samplu wedi'i gomisiynu.
- Cyhoeddwyd datganiad ystadegol o Gyfrifiad ar 5 Gorffennaf, 2023. Mae hwn yn darparu data cryno ar grwpiau ethnig yn ôl iechyd, tai, canlyniadau addysg a statws economaidd ar gyfer unigolion ac aelwydydd a oedd yn drigolion arferol yng Nghymru ar adeg y cyfrifiad, ar 21 Mawrth 2021. Bydd hyn yn ffurfio un o'r llinellau sylfaen ar gyfer gwerthuso Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn ystyried opsiynau dadansoddi data pellach gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad e.e. croestoriadedd.
- Cyhoeddwyd is-adroddiad ethnigrwydd o adroddiad blynyddol Llesiant Cymru ar 28 Medi, 2023.

Mae gwaith yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail hil ar ddatblygu fframwaith i nodi sut i fesur a gwerthuso effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn cael ei gynnal ar y cyd ag is-grŵp tystiolaeth y Grŵp Atebolrwydd Allanol sy'n cynnwys aelodau a chanddynt ddiddordeb ac arbenigedd mewn mesur.  Mae'r fframwaith drafft wrthi'n nodi sut mae

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn bwriadu esgor ar newid o gamau gweithredu i nodau, tystiolaeth o weld y newid a ddymunir a nod cyffredinol Cymru wrth-hiliol.

Mae datblygiad y fath fframwaith yn dibynnu'n helaeth ar gasglu data a thystiolaeth ansawdd uchel i fesur newidiadau i arferion a chanlyniadau mewn meysydd polisi, yn ogystal â chanlyniadau cyffredinol i bobl.

Bydd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn canolbwyntio ar gasglu profiadau byw pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig er mwyn mesur a deall effaith a chynnydd ar y tir. Mae'r uned yn ceisio gweithio'n agos gyda'r sawl â phrofiadau byw (gan ddefnyddio cysylltiadau trwy is-grŵp ymchwil a thystiolaeth y Grŵp Atebolrwydd Allanol) er mwyn sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu cynnwys.

Er bod yr uned yn cydnabod bod hyn yn agwedd allweddol ar ei gwaith, mae'r math hwn o ymchwil yn ddwys o ran amser ac adnoddau ac mae'r uned yn ystyried yn ofalus sut i gyflawni'r gwaith hwn mewn ffordd effeithiol. Yn ogystal, mae'n bwysig nodi rhai o'r heriau yn hyn o beth, fel sicrhau nad ydym yn rhoi gormod o faich ar gyfranogwyr a sicrhau tâl digonol a'n bod yn gweithredu ar y dystiolaeth a gasglwn. Mae'r uned yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr unedau tystiolaeth cydraddoldeb ac anabledd, sy'n datblygu dull o gyd-gynhyrchu ymchwil, gan gynnwys mynd i'r afael â'r heriau a'u goresgyn.

- Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn cefnogi meysydd polisi a dadansoddwyr i fesur cynnydd yn eu meysydd ac yn:
    - Pwysleisio pwysigrwydd meddu ar ddull cyson o gasglu data ethnigrwydd;
    - deall pa ddata a thystiolaeth ethnigrwydd sy'n cael eu casglu a nodi'r bylchau;
    - rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i gydweithwyr polisi a dadansoddol wrth gasglu a dadansoddi data a thystiolaeth ar ethnigrwydd;
    - rhannu'r gwersi a ddysgwyd am arfer da a heriau;
    - dylanwadu ar gasglu data a thystiolaeth ethnigrwydd a sicrhau eu bod yn cefnogi'r nod o ddatblygu dangosyddion mesur i ddangos effaith y cynllun;
    - prif-ffrydio'r gwaith o gasglu data a thystiolaeth ethnigrwydd drwy'r ymchwil a wneir gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd y prosiectau Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil amrywiol parhaus ac a gyhoeddwyd yn mynd i'r afael â rhai o'r bylchau blaenoriaeth mewn tystiolaeth a fydd yn cyfrannu at y fframwaith gwerthuso. Bydd fframwaith gwerthuso Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn darparu'r map ffordd o ran sut i fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth feintiol a thystiolaeth o brofiad byw ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

- Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn cydnabod bod y dasg o wella'r gwaith o gasglu data a thystiolaeth ethnigrwydd a gwerthuso effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn aruthrol ac ni ellir ei gwneud heb bartneriaeth agos ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys partneriaid sector cyhoeddus a'r rhai sydd â phrofiad ymarferol. Mae'r enghraifft ganlynol yn un o'r ffyrdd niferus maent yn gweithio gydag eraill i fynd i'r afael â bylchau drwy ddylanwadu ar y gwaith o gasglu data a thystiolaeth ethnigrwydd a sicrhau eu bod yn cefnogi gwerthusiad o effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

  *Astudiaeth achos: Addysg a'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil*

  - Roedd cydweithwyr polisi Addysg Bellach am ymgymryd â gwaith ymchwil ansoddol gyda'r bwriad o ddeall yn well brofiadau ymarferol dysgwyr a staff o leiafrifoedd ethnig yn y sectorau Addysg Bellach, prentisiaeth a dysgu oedolion, gan gynnwys eu profiadau o wahaniaethu ar sail hil ac aflonyddu hiliol a'u safbwyntiau ar beth sydd angen ei newid i gyflawni uchelgais wrth-hiliol Cymru. Gwnaethant gefnogi cydweithwyr i bennu, caffael a sicrhau ansawdd y gwaith i wneud yn siwr ei fod yn rhoi profiadau ymarferol pobl o leiafrifoedd ethnig wrth wraidd gwaith cynllunio a chyflawni ymchwil, drwy sicrhau bod pobl o leiafrifoedd ethnig yn chwarae rolau arweiniol wrth gyflawni'r contract hwn, a thrwy sicrhau bod canlyniadau ymchwil ansoddol yn cael eu defnyddio i ffurfio'r gwaith parhaus o gyflawni camau gweithredu gwrth-hiliol i'r sector Addysg Bellach.
  - Maent yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ymgymryd â'r darn hwn o waith ymchwil profiad ymarferol mewn caffael a chynnal y gwaith ymchwil i lywio ein hymarfer ein hunain a rhannu hwn â chydweithwyr polisi a dadansoddol. Cyhoeddwyd yr ymchwil hon ar 5 Hydref, 2023.

Yn dilyn cyhoeddi fframwaith gwerthuso Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, bydd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn parhau i weithio gyda meysydd polisi i'w cefnogi i wella tystiolaeth blaenoriaeth a mesurau perfformiad yn eu meysydd. Yng nghamau diweddarach yr archwiliad data, bydd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn edrych y tu hwnt i gwmpas Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gyda'r bwriad o wella tystiolaeth ethnigrwydd mewn partneriaeth â chydweithwyr dadansoddol ar raddfa ehangach.

Plismona yng Nghymru
Policing in Wales

**Jenny Rathbone MS**
Chair, Equality and Social Justice Committee
Senedd Cymru/Welsh Parliament

**Emma Wools**
Deputy Police and Crime Commissioner for South Wales

17th November 2023

Dear Jenny,

**Re: Inquiry into the Public Health Approach to Preventing Gender Based Violence (Policing in Wales Submission) – Perpetrator Programmes**

Please find attached a supplementary report prepared on our behalf by Chief Superintendent Ian Roberts. This provides the additional information, as requested in your letter dated 31st October 2023.

If you require any further information or assistance, please do not hesitate to get in touch.

Yours sincerely,

**Emma Wools**

**Deputy Police and Crime Commissioner for South Wales**

For, and on behalf of Policing in Wales Executive Group

Ty Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-Bont ar Ogwr, CF31 3SU
f: 01656 869366
e: comisiynydd@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Ty Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru/Welsh Parliament**

**Equality and Social Justice Committee Inquiry**

# Inquiry into the Public Health Approach to Preventing Gender-based Violence

## Perpetrator Programmes

## Submission on behalf of Policing in Wales

| | |
|---|---|
| **Author** | Chief Superintendent Ian Roberts |
| **Role** | VAWDASV/VAWG and Anti-Racism Lead, Policing in Wales |
| **Contact** | Ian.w.roberts@gwent.police.uk |
| **Date** | 17th November 2023 |

## Introduction

This report provides supplementary information to the inquiry, following the submission of earlier reports dated 25th August and 13th October 2023. Oral evidence was provided by senior representatives of the Policing in Wales executive group on 10th July.

Further to the report submitted on 13th October, this report summarises existing community-based, non-statutory domestic abuse perpetrator programmes that are either commissioned by, or available to police forces in Wales. It also responds to further clarification, as requested by the inquiry committee in its most recent letter dated 31st October.

## Summary of Perpetrator Programmes

### Dyfed-Powys Police Area

| Programme | Attendance | Referral route | Eligibility | Funding | Longevity |
|---|---|---|---|---|---|
| Choices | Voluntary | Can take referrals from any agency | Open – community based | Funded jointly by strategic VAWDASV partners | Annual funding, moving towards multi-year arrangement |
| Stalking intervention | Voluntary | Police only | Identified based on risk | Funded jointly by strategic VAWDASV partners | Annual funding, moving towards multi-year arrangement |
| Intervention Hub | Voluntary | Can take referrals from any agency | Open – community based | Funded jointly by strategic VAWDASV partners | Annual funding, moving towards multi-year arrangement |
| Integrated Family Support Service | Voluntary | Can take referrals from any agency | Open – community based | Funded by Home Office DA Perpetrator Funding originally, now funded by PCC | Yearly funding approval |

South Wales Police Area

| Programme | Attendance | Referral route | Eligibility | Funding | Longevity |
|---|---|---|---|---|---|
| Drive Project | Voluntary | MARAC | High risk- multi agency selection through MARAC | Funded by PCC | Multi-year arrangement, current cycle… |
| Family Intervention Programme | Voluntary | Third party organisation or self (predominantly Children's Services) | Open community based- Whole Family Approach | Funded by PCC | Annual funding |
| Clear | Voluntary | Open- Prevention work often self-referral or Children's services. | Community based early intervention- not high risk | Funded by PCC and by strategic VAWDASV partners | Annual funding |
| Driving Change | Voluntary | Third party organisation or self | Medium/ Standard risk | Funded by strategic VAWDASV partners | Annually |
| Equilibrium | Voluntary | Third party organisation or self (predominantly Children's Services) | Medium/ standard risk | Funded by Local Authority | Multi-year funding (core business) |
| Inspiring Families | Voluntary | Third party organisation or self | Parties with children, looking to continue relationship | | |
| Re-provide | Voluntary | Self-referrals | Males who have been using violence | | |

North Wales Police Area

| Programme | Attendance | Referral route | Eligibility | Funding | Longevity |
|---|---|---|---|---|---|
| Relate Cymru – Choose2Change | Voluntary | | | Welsh Government Regional VAWDASV Grant | Annually |
| Intervention Hub | Voluntary | Can take referrals from any agency | Open – community based | | Commissioned service stopped in 2023/24 due to lack of integrated partner support. |
| ADAPT | Voluntary | High risk-multi agency selection through MARAC | High risk/high harm | MOJ Perpetrator fund | |

Gwent Police

| Programme | Attendance | Referral route | Eligibility | Funding | Longevity |
|---|---|---|---|---|---|
| Phoenix DAS | Voluntary | Any agency can refer | | Spot purchase arrangements | |

## Policing in Wales Considerations

Tackling violence against women in girls has been reflected as a priority for PCC's and Chief Constable's in their plans for some time. In February 2023, The Home Office announced that Violence Against Women and Girls was to be added to the list of national policing priorities, set out in the Strategic Policing Requirement (SPR). This means that the issue has the same status as other threats to public safety such as terrorism, serious and organised crime, public disorder, cyber-attacks, child sexual abuse and exploitation, and fraud.

In the spring of this year, Police and Crime Commissioners and Chief Constables in Wales invested in the creation of a new Chief Superintendent role to help lead the work on VAWDASV/VAWG and Anti-Racism work across the four forces. The current post holder is Chief Superintendent Ian Roberts.

The Strategic Policing Requirement requires PCC's and Chief Constables to have due regard to national policing priorities when setting out their Police and Crime Plans and Operational Delivery Plans, and then allocating resources. The SPR also aims to ensure consistent and

cohesive approaches across force boundaries, and that effective partnerships are in place at all levels.

Whilst PCC's and Chief Constables are primarily accountable to their local communities and will shape services according to local context, the Policing in Wales structure aims to ensure common approaches wherever it is appropriate, feasible, and beneficial to the people of Wales.

PCC's face challenging decisions when deciding where to invest limited commissioning budgets. Currently, there is little consistency in the availability of appropriately accredited perpetrator services in each force area, and there are concerns about completion rates and outcomes, where attendance is voluntary.

That said, the South Wales PCC has made a significant investment in the development of the Drive programme, and this is an example of a successful perpetrator intervention programme, underpinned by ongoing evaluation.

## Why is Attendance Voluntary?

Attendance is voluntary for two main reasons:

1. Existing non-statutory programmes usually require a perpetrator to accept their behaviour and be willing to engage in change.
2. Police have no powers to require attendance or completion of a perpetrator programme without a conviction in the Criminal Courts.

Where a case is prosecuted and there is a criminal conviction, statutory programmes can be mandated as part of an offender's rehabilitation order.

Family Courts can also place certain requirements on perpetrators to attend programmes commissioned by the MOJ during civil proceedings.

## Developments in the Gwent Region

Below is a summary from the Gwent Police PCC's office, summarising, the actions being undertaken to improve access to perpetrator programmes in the region. Similar work is being undertaken, or will be taken, in all force areas and will be brought together through the Task Force arrangements.

*'A Tackling Perpetration Needs Assessments has been commissioned to undertake on behalf of the VAWDASV partnership and OPCC. This will inform the Serious Violence strategic needs assessment /VAWDASV programme of work.*

*First phase – A problem profile for VAWDASV in Gwent to be included in the Serious Violence Strategy. The strategy is to be completed by the end of January 2024. The profile will include data from partners to illustrate the profile of VAWDASV in the region.*

*Second phase – A longer term piece of work as part of the VAWDASV Delivery Plan to understand what interventions are available for perpetrators of all forms of VAWDASV in*

*Gwent and to determine what is needed to address the scope from Early Intervention and Prevention to Criminal Justice interventions.*

*This work will include the following key activities:*

- *Map existing and planned provision for VAWDASV perpetrators across Gwent.*
- *Analysis of available data relating to VAWDASV perpetration in Gwent.*
- *Identify sources of funding for perpetrator activity in the region.*
- *Examine the infrastructures for existing provision.*
- *Develop a problem profile of VAWDASV perpetration in Gwent.*
- *Prepare a report that examines all of the above.*

*In Gwent, there is currently limited provision from the Phoenix DAS offer of spot purchased DA programmes. Phoenix DAS was previously commissioned by the OPCC in Gwent, however a decision was made to decommission due to low referrals. Another issue was that perpetrators had to accept full responsibility for their actions to access the programme and due to the course being voluntary there was nothing to enforce engagement which also resulted in low numbers.*

*Building Better Relationships (BBR) is provided by HMPPS Interventions Services for those with a probation order. BBR is for adult men convicted of an Intimate Partner Violence (IPV) offence. BBR is a moderate-intensity cognitive-behavioural programme which recognises that IPV is a complex problem which is likely to have multiple causes. BBR responds to individual needs and provides opportunities to develop skills for managing thoughts, emotions, and behaviours.*

*Reducing the harm caused by Domestic Abuse (DA) is a priority for Gwent OPCC/Police and is a key commitment in the Gwent Police and Crime Plan. This is underpinned by the Welsh Government VAWDASV Workstream as well as the NPCC VAWG Strategy. Tackling Perpetrators of DA is also a pillar of the Gwent Regional VAWDASV Plan. The OPCC were successful in submitting a bid to the Home Office's DA perpetrator fund to seek funding for a DA perpetrator intervention in line with Project CARA and additional resources for MATAC, a risk management approach for DA perpetrators.*

*CARA - Project CARA sits within the criminal justice system as an early 'awareness raising diversionary' intervention targeting offenders who have received a Conditional Caution. Through engagement in two workshops and feedback from victims, CARA enables offenders to understand what domestic abuse is, the impact and its consequences. Workshops are designed to maximise engagement with offenders and to nudge them into specialist services with the aim of reducing reoffending. This is joint commissioned with South Wales. Launch date in Gwent is 20/11/23.*

*MATAC – Gwent Police have recently introduced the Multi-Agency Tasking and Coordination (MATAC) process. This is where the highest risk repeat domestic abuse perpetrators are discussed in a multi-agency forum to divert, disrupt, and prevent offending. This is being piloted for 18 months and the first MATAC in Wales. Although MATAC has been running for a few years, there has been issues with staffing and commitments as this was supplementary*

*to existing roles. However, now with additional funding from the Home Office's DA perpetrator fund, Gwent Police are in the process of recruiting dedicated staff. Expected launch date is January 2024.*

*DAPO – The expected launch date is May 2024, subject to operational readiness. The Electronic Monitoring element has been delayed, launch date November 2024 (HO and MOJ accepted operationally forces need time to prepare). Regarding Perpetrator Programmes, virtual opportunities are being explored by the HO/MOJ provided by other services across the border. Also, Gwent are having to utilize existing services within the area linked to offending behaviour such as substance misuse/alcohol, mental health intervention etc. HO/MOJ have also alluded to the idea of top up funding being provided for selected programme providers, selected to carry out the role of responsible person.'*

## Evaluation of Perpetrator Programmes in South Wales Police Area


The Drive Project underwent a large-scale evaluation which was published in 2020. It is now in the early stages of the second round of evaluation funded by the PCC to expand the knowledge base and identify ways to enhance the service further.

The Family Intervention Programme was independently evaluated in 2020, however the evaluation was significantly impacted by the COVID pandemic, so discussions are underway with the researchers to replicate and enhance the original evaluation.

Clear has been evaluated as part of the wider 'Change that Lasts Approach' evaluation, this in it's final stages of completion and we are awaiting the final report.

CARA has been extensively evaluated in other areas of the UK with significant positive results PsyArXiv Preprints | The CARA (Cautioning and Relationship Abuse) Service Theory of change, impact evaluation and economic benefits study report (osf.io)

*Figure 1. – Key Findings of the Drive Programme Evaluation*




## Next Steps

Changes in Ministry of Justice Policy on the use of pre-court diversion in domestic abuse cases will now enable police forces across the country to adopt the CARA (Cautioning and Relationships Abuse) model which has been subject to extensive evaluation, as explained in a previous submission to the inquiry. This paves the way for greater standardisation and places a requirement on perpetrators to engage as part of a conditional cautioning model.

Policing in Wales recognises the importance of perpetrator programmes at all levels of prevention work (primary, secondary, and tertiary), and as part of a public health approach to ending violence against women, domestic abuse, and sexual violence. The demand for perpetrator programmes far outweighs the budgets available to PCC's and so a whole systems response is essential. For that reason, Policing in Wales are active members of the VAWDASV Blueprint, and contributing to the work of the 'Tackling Perpetrators' workstream.

Policing in Wales has also established its own VAWDASV/VAWG Task Force, which is led Chief Constable Amanda Blakeman, and has senior PCC and force representation. This group aims to develop common approaches across police organisations in Wales on the key issues relating to VAWDASV, including perpetrator programmes. Gwent and South Wales Police forces are currently working together on the roll out of the CARA model, with a view to wider expansion across Wales following the initial pilot during 2024.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

31 Hydref 2023

Annwyl Emma

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Diolch i chi a'ch cydweithwyr am ddarparu gwybodaeth ychwanegol am Raglenni Cyflawnwyr fel y maent wedi'u cynnwys yn adroddiad y Prif Uwch-arolygydd Thomas dyddiedig 13 Hydref 2023.

Gwnaethom nodi'r adroddiad yn ein cyfarfod ar 23 Hydref a chytuno i ddilyn y pwyntiau isod:

> A fyddai'n bosibl i Ardal Heddlu De Cymru ac Ardal Heddlu Gogledd Cymru gyflwyno eu data yn yr un ffordd â Heddlu Dyfed Powys, h.y. drwy dabl sy'n cynnwys yr un categorïau penodol: Rhaglen, Presenoldeb, Llwybr atgyfeirio, Pwy sy'n gymwys, Ariannu a Hirhoedledd? Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn hynod ddefnyddiol i'r wybodaeth gael ei chyflwyno fel hynny a byddent yn croesawu data cymaradwy ar gyfer ardaloedd eraill yr heddlu.

Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i greu dull cyffredin o ymdrin â Rhaglenni Cyflawnwyr ledled Cymru? Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effeithiolrwydd y trefniadau presennol?

A fyddech cystal ag esbonio pam y mae'r Rhaglenni Cyflawnwyr a restrir yn wirfoddol yn unig ac nad ydynt yn orfodol?

Sut mae'r Rhaglenni Cyflawnwyr yn eich cyflwyniad gan Plismona yng Nghymru yn rhyngweithio â'r rhai sy'n cael eu rhedeg gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder?

O ran Gwent allwch chi gadarnhau:

- a oes cynlluniau ar gyfer Rhaglenni Cyflawnwyr newydd ar y gweill a'r dyddiad y byddant yn dechrau rhedeg;
- a yw rhedeg Rhaglen i Gyflawnwyr yn dibynnu ar gyllid gan y Swyddfa Gartref; a
- sut y gall Gorchmynion Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig y bwriedir eu treialu ddod i rym heb i Raglen i Gyflawnwyr fod ar waith yn ardal yr heddlu?

Byddwn yn ddiolchgar iawn o gael eich ymateb erbyn 10 Tachwedd.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb
a Chyfiawnder Cymdeithasol
Trwy e-bost

Dydd Iau 16 Tachwedd 2023

Annwyl Cadeirydd,

**Testun: Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A Yw Cymru'n Decach? 2023**

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at ein hadroddiad carreg filltir ar gyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yn 2023. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyd-destun Cymreig ac yn cyd-fynd â'n hadroddiad ar Brydain yr ydym wedi'i osod yn Senedd y DU ac a gyhoeddwyd heddiw (16 Tachwedd). Yn benodol, hoffem dynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion sy'n berthnasol i chi fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Yn dilyn ymlaen o'n hadroddiad olaf “A yw Cymru'n Decach?” yn 2018, mae'r Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach 2023 yn defnyddio'r data cynhwysfawr a amlinellir yn ein Fframwaith Mesur i asesu cynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol dros y pum mlynedd diwethaf ledled Cymru.

Yn gyffredinol, rydym wedi canfod bod heriau sylweddol wedi bod i gydraddoldeb a hawliau dynol dros y pum mlynedd diwethaf gan gynnwys:

- effaith ddofn y pandemig COVID-19
- ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd
- y cyfnod o chwyddiant uchel yn ogystal ag effaith economaidd y rhyfel yn yr Wcrain

Mae'r digwyddiadau hyn wedi gwaethygu rhai anghydraddoldebau parhaus, hirdymor. Er enghraifft, mae'r data'n dangos, er bod mwy o bobl ifanc wedi bod

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

yn adrodd am gyflyrau iechyd meddwl ers 2010, mae'r niferoedd wedi codi ymhellach yn ystod y pandemig ac yn parhau i fod yn uchel.

Mae'r digwyddiadau hyn hefyd wedi bod yn gatalydd ar gyfer tueddiadau newydd. Er enghraifft, mae'r cynnydd mewn gweithio gartref wedi bod o fudd i rieni, pobl hŷn a phobl anabl, a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofal.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar ein gwefan. Hoffwn dynnu eich sylw yn arbennig at rai o'n canfyddiadau lle rydym wedi gweld y canlynol:

- Mae'r bwlch cyrhaeddiad addysg ar lefel cyfnod sylfaen rhwng plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl wedi ehangu ac mae oedolion anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi nag oedolion nad ydynt yn anabl.
- Mae gostyngiad wedi bod yn y gyfran o droseddau treisio a gofnodwyd yn erbyn merched sy'n arwain at gyhuddiadau. Mae pobl ddu neu bobl ethnig gymysg yn fwy tebygol o fod wedi dioddef ymosodiad rhywiol yn


**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

y flwyddyn ddiwethaf na grwpiau ethnig eraill.

- Mae bylchau data cydraddoldeb a hawliau dynol sylweddol yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer nodweddion gwarchodedig crefydd, ailbennu rhywedd, a chyfeiriadedd rhywiol ym mhob maes bywyd ac yn ychwanegol ar gyfer hil ym meysydd addysg drydyddol ac iechyd.
- Mae cyfran penodiadau cyhoeddus pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf ac mae cynrychiolaeth menywod mewn llywodraeth leol ac fel prif weithredwyr mewn penodiadau cyhoeddus wedi codi.

Mae ein hadroddiad hefyd yn nodi argymhellion i fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn, gan gynnwys:

- Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad cynyddol rhwng plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl a thangynrychiolaeth pobl anabl sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau ac yn eu cwblhau.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

- Dylai Llywodraeth Cymru, heddluoedd ac aelodau eraill o Fwrdd Partneriaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru ddeall yn well wahaniaethau ethnig mewn profiadau o ymosodiadau rhywiol a sicrhau bod cyfraddau cyhuddo ar gyfer troseddau casineb, ymosodiadau rhywiol, a threisio yn briodol i'r lefelau a adroddir ac a gofnodwyd.
- Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a phob corff cyhoeddus yn nodi sut y gallant ddeall materion yn well a llenwi bylchau tystiolaeth yn ôl nodweddion gwarchodedig crefydd, ailbennu rhywedd, a chyfeiriadedd rhywiol i ddiwallu anghenion eu cymunedau.
- Er mwyn cynyddu amrywiaeth mewn cynrychiolaeth wleidyddol ac i sicrhau bod data amrywiaeth yn cael ei gasglu, dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd alw ar lywodraeth y DU i gychwyn adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, i drosglwyddo'r pwerau i wneud hynny, neu i ddeddfu ar gyfer trefniadau etholiadol y Senedd.

Fel y gwyddoch, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) gyhoeddi amcanion cydraddoldeb



**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

penodol a mesuradwy. Mae ein hargymhellion wedi'u cynllunio i gefnogi datblygiad yr amcanion hyn a helpu i sicrhau y gellir cyflawni'r rhwymedigaeth gyfreithiol hon mewn ffordd sy'n strategol ac yn canolbwyntio ar yr heriau cydraddoldeb mwyaf arwyddocaol a nodir gan y data.

Byddwn yn eich annog i ystyried sut y gall ein canfyddiadau a’n hargymhellion lywio gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a chefnogi’r gwaith o graffu ar gamau gweithredu a chynnydd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau.

Byddem yn awyddus i drafod y canfyddiadau a'r argymhellion hyn yn fanylach a byddem yn falch iawn o gynnig cyfarfod i chi pan fydd yn gyfleus i chi.

Yr eiddoch yn gywir,



Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Parch Ruth Coombs,

Pennaeth Cymru,

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

**Ffôn uniongyrchol:** 029 2044 7720

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

23 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 40fed Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am gyfarfod 40fed Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, a gynhelir yr wythnos hon dan ofal Llywodraeth Iwerddon.

Byddaf yn mynychu'r cyfarfod yn bersonol. Yn ogystal â'r cyfle arferol i gael diweddariad cyffredinol ar wahanol faterion, thema'r Uwchgynhadledd yw 'Trawsnewid Bywydau Plant: Taclo Tlodi Plant a Gwella Lles'

Bydd y Cyngor yn cytuno ar gyd-hysbysiad yn yr Uwchgynhadledd, yn manylu ar y trafodaethau a gafwyd, a byddaf yn anfon hwn atoch. Byddaf hefyd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd drwy ddatganiad ysgrifenedig maes o law.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon